ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Mawrth 2015

Cystadleuaeth Bowldro De Gwynedd

Mae swyddogion pobl ifanc egniol Gwynedd wedi bod yn trefnu cystadleuaeth Bowldro ers nifer o flynyddoedd bellach. Eleni mae'r gystadleuaeth wedi newid. Yn y gorffennol un tîm o ddeg o ddisgyblion oedd yn cynrychioli pob ysgol. Eleni, pedwar tîm o dri disgybl oedd yn cystadlu. Mae pedwar categori gwahanol :-Bechgyn Bl.7 ac 8,Bechgyn 9,10 ac 11,Merched Bl.7 ac 8 a Merched 9,10 ac 11.
Roedd chwech o ysgolion yn cystadlu yng nghystadleuaeth De Gwynedd sef Eifionydd, Ardudwy, Y Moelwyn, Tywyn, Y Gader ac Ysgol y Berwyn. Gall y gystadleuaeth roi blas i ddisgyblion o'r hyn fyddai ymuno â clwb dringo yn gallu ei gynnig iddyn nhw..

Mae Ysgol Eifionydd yn ffodus iawn o gael wal ddringo ar y safle. Cynhelir clwb dringo 5x60 yn ystod amser cinio pob dydd Mercher gan Mr.Gwyn Owen.

Llwyddodd timau bechgyn a merched Bl.9, 10 ac 11 i ddod yn ail.

Jess Kavanagh,Swyddog Pobl Ifanc Egniol

Twrnament Eryri – Hoci dan 14oed

Yn dilyn eu llwyddiant yn nhwrnament Meirion/Dwyfor ac Eryri bydd y tîm yn cynrychioli Eryri yn nhwrnament hoci Cymru. Cynhelir y twrnament yma ar gaeau Prifysgol Abertawe ar Fawrth 17eg.

Canlyniadau gemau yn nhwrnament Eryri

Eifionydd 2 Eirias 2

Eifionydd 3 Rydal Penrhos 0

Eifionydd 3 Syr Hugh Owen 0

Eifionydd 1 Glan y Môr 0

Eifionydd 1 Tryfan 0

Llongyfarchiadau mawr i'r genod a phob dymuniad da iddynt yn Abertawe.

Pêl-droed Merched

Teithiodd tîm pêldroed dan 15 merched Eifionydd i'r Preseli i chwarae yn rownd go gynderfynol Cwpan Ysgolion Cymru. Llwyddodd y tîm o ferched o flynyddoedd 8, 9 a 10 i ennill y gêm o dair gôl i ddim. Bydd y genod yn mynd ymlaen i chwarae yn erbyn Prestatyn yn y gêm gynderfynol. Da iawn chi genod a phob lwc yn y gêm nesaf.

Eisteddfod yr Urdd

Bu cystadlu brwd yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Mawrth y 7fed yn yr Eisteddfod Sir. Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu a phob hwyl i'r rhai fydd yn cynrychioli'r ysgol yng Nghaerffili ddiwedd mis Mai. Daeth llwyddiant hefyd i nifer o ddisgyblion yr ysgol sy'n cystadlu gydag Aelwyd Chwilog. Dyma'r canlyniadau :-

Unawd Merched Bl.7-9
3ydd Elin Davies
Deuawd Bl.7-9
1af Beca a Siwan
3ydd Erin ac Erin
Deuawd Cerdd Dant Bl.9 ac iau
1af Beca a Siwan

Llefaru Unigol Bl.7-9
3ydd Awen Ifan Puw
Parti Cerdd Dant Bl.7,8 a 9
1af Parti Eifionydd
Côr Bl.9 ac iau (Adran)
1af Aelwyd Chwilog
Grŵp Llefaru Bl.9 ac iau (Adran)
2il Aelwyd Chwilog

Cystadleuaeth Celf Ellis Wyn Y Lasynys 2015

Cynhaliwyd arddangosfa o waith dros 260 o ddisgyblion cynradd ac uwchradd oedd wedi cystadlu yn y gystadleuath hon yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth ar nos Fawrth, Chwefror 24ain. Roedd yn gyfle hefyd i worbwyo'r enillwyr. Daeth llwyddiant i nifer o ddisgyblion :-

3ydd Richard Ifan Feucht, Bl.7. 3ydd Mia Wood, Bl.9. 4ydd Anest Edwards,Bl.7.

4ydd Sarah Rushton, Bl.8

Tystysgif Teilyngdod Arbennig = Elen Thomas, Bl.9 ac Elin Davies,Bl.9

Tystysgrif Teilyngdod

Bl.7 = Catrin Griffiths, Morgan Lukacs, Iwan Evans, Seren Hughes-Moore

Bl.8 = Mia Owen, Erin Wyn Williams

Bl.9 = Hanna Lewis, Siwan Owen, Ella Humphreys, Gwenno Till, Rya Douglas, Phoebe Cook, Luke Lewis.

Stwnsh

Bu tri o ddisgyblion Blwyddyn 8 ym Mhotmeirion yn cael eu ffilmio ar gyfer rhaglen'Stwnsh'. Bu Osian, Mille ac Einion yn brysur iawn, ond dim ond un enillydd sydd. Bydd rhaid i chi wylio'r rhaglen er mwyn canfod pa un ohonynt ddaeth i'r brig.

Her ddarllen Bechgyn Bl.8

Mae bechgyn Blwyddyn 8 wedi bod yn brysur iawn yn cymryd rhan mewn her ddarllen dan arweiniad Miss Mary Atkinson o'r Adran Saesneg. Bwriad y cynllun yw annog bechgyn i ddangos mwy o ddiddordeb mewn llyfrau a'u hysgogi i ddarllen mwy o lyfrau. Mae'r cynllun yn benodol ar gyfer bechgyn gan ei fod yn gysylltiedig â phêl-droed.



Profiad Gwaith

Pleser bob amser yw croesawu cyn-ddisgyblion yn ôl i'r ysgol. Bu James Scurrah-Price a Sophie Owen ar Brofiad Gwaith gydag Adran Ymarfer Corff yr ysgol. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch yn y dyfodol.

Llio a Ffion Dudley

Erbyn hyn mae Llio a Ffion Dudley wedi cael eu llawriniaethau. Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r ddwy ohonynt.

Cyfle i ni gyd ddysgu i garu ein parciau Cenedlaethol – Eryri yn ein milltir sgwâr ni.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn 64 oed eleni ac ar yr 11eg o Fawrth dathlwyd hynny trwy blanu 64 coeden ar 64 safle gwahanol a hynny oll mewn un diwrnod o fewn ffiniau ac ymylon y parc.
Dyma gynrychiolaeth o Gyngor Eco Ysgol Eifionydd yn plannu'r goeden dan oruchwyliaeth Angharad Harris (Swyddog Addysg y Parc) a'n Pennaeth Alwen Watkin.
Etifeddom goeden hyfryd y Griafolen a gyflennwyd gan Gymdeithas Brydeinig Gwyddoniaeth Bridd a Chyngor Gwynedd yn cyflenwi'r compost.
Hyderwn y bydd yn cael cyfle i dyfu i'r dyfodol gan rannu ei blodau, dail a'i haeron â byd natur ein milltir sgwâr.

Gala Rhanbarthol Gogledd Cymru yn Llandudno Chwefror 2015

Lora Lukacs

50m Rhydd	2il
100m Rhydd	3ydd
200m Rhydd	2il
400m Rhydd	2il
800m Rhydd	2il
Ras Gyfnewid Rhydd	1af

Morgan Lukacs

50m Cefn	2il
50m Pilipala	3ydd
50m Rhudd	5ed
100m Pilipala	7fed
200m Cefn	7fed
100m Rhudd	8fed
100m Cefn	8fed
200m Cymysg	8fed

Mae'r ddau wedi llwyddo i fynd i gystadlu ym Mhencampwriaeth Cenedlaethol Cymru yn Mhwll Cenedlaethol Cymru, Abertawe dros y Pasg 2015. Dim ond y 24 cyntaf yng Nghymru i bob oedran / cystadleuaeth oedd yn derbyn y gwahoddiad.